Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol-Y-Wern
# Llangrannog Road
# Llanishen
# Caerdydd
# CF14 5BL

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol-Y-Wern

Lleolir Ysgol-Y-Wern yn ardal Llanishen yng ngogledd Caerdydd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 601 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 79 oed meithrin rhan-amser.

Dros dreigl tair blynedd, mae ychydig dros 5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sef 19%. Mae 28% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 21% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyfateb i'r ganran genedlaethol.

Penodwyd y pennaeth yn barhaol i'w swydd ym mis Ebrill 2002 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2009.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth hyderus a chadarn y pennaeth ynghyd â'i disgwyliadau aruchel wedi gosod cyfeiriad strategol cryf iawn i'r ysgol hon.  Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu cyfleoedd eang o safon uchel iawn i'r holl ddisgyblion.  Mae hyn yn eu galluogi i gyflawni hyd eithaf eu gallu mewn meysydd eang o fewn amgylchedd gofalgar, cefnogol a Chymreig ei naws.  Rhoddir bri ar barch a chwrteisi rhwng disgyblion a'i gilydd, a rhwng plant ac oedolion.

Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn gwireddu gweledigaeth y pennaeth yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio a chyflwyno gweithgareddau arloesol a chreadigol i'r disgyblion, a'u hannog i wella'u gwaith yn barhaus gan anelu at ragoriaethau personol.  Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn rhoi cyfleoedd gwych i'r disgyblion integreiddio ystod o fedrau yn gwbl naturiol mewn sefyllfaoedd go iawn.  O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol, yn mwynhau mynychu'n ddyddiol, yn dyfalbarhau wrth eu tasgau ac yn gwneud cynnydd rhagorol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y cynllun gwella a'r arfarniadau ysgrifenedig yn adlewyrchu trylwyredd a miniogrwydd ei gweithdrefnau, ac yn nodi'n glir eu heffaith ar safonau uchel y disgyblion

A2 Sicrhau bod y ddarpariaeth barhaus ar frig y cyfnod sylfaen bob amser yn herio disgyblion i wneud cystal cynnydd ag y gwnânt mewn tasgau ffocws

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'i dull o gynllunio profiadau dysgu arloesol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n seiliedig ar gyd-destunau bywyd go iawn ac sy'n cwmpasu ystod o fedrau, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

O ganlyniad i'w cefndir ieithyddol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar fedrau cyfathrebu Cymraeg lled isel wrth gychwyn yn yr ysgol. Lleiafrif ohonynt sy'n cychwyn gyda medrau mathemategol yn uwch na'r, neu'n debyg i'r, disgwyl. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd rhagorol mewn medrau llafar, gwrando, darllen, ysgrifennu a rhifedd. Maent yn cymhwyso'r rhain ynghyd â'u medrau meddwl a'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hynod lwyddiannus mewn ystod o wahanol weithgareddau creadigol ac integredig. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd ardderchog yn erbyn eu targedau.

Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion y dosbarth meithrin yn dod i siarad Cymraeg yn fuan o ystyried eu hoed a'u cefndir ieithyddol. Mae'r lleiafrif yn siarad mewn brawddegau llawn ac yn trafod yn hyderus, er enghraifft pa anifeiliaid sydd angen dŵr i fyw ynddo mewn sw. Mae llawer yn adnabod rhifau ac yn cyfrif yn hyderus sawl coes sydd gan yr anifeiliaid yn y byd bach.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae bron pob un wedi gwneud cynnydd ardderchog yn eu defnydd o'r Gymraeg. Maent yn sgwrsio'n aeddfed am wahanol destunau, yn darllen yn glir a chywir, ac yn ysgrifennu darnau estynedig sy'n hynod ddiddorol. Mae enghreifftiau arbennig yn cynnwys disgrifiad o'u hoff degan, portread o Barti Ddu, a'u gwaith creadigol wrth lunio e-lyfrau yn seiliedig ar ymweliad gan artist lleol. Mae'r rhan fwyaf yn atalnodi'n hyderus ac yn cwblhau tasgau golygu yn gywir mewn darnau o brint.

Mae bron pob un disgybl yn datblygu eu medrau mathemateg yn llwyddiannus, gan ddeall cysyniadau fel gwerth lle, mesur a siâp. Maent yn eu defnyddio'n hyderus mewn ystod o gyd-destunau creadigol fel darganfod cymesuredd ym myd natur ac argraffu patrymau o ddail cymesur ar ddefnydd yn dilyn sesiwn ddysgu yn y goedwig.

Mae bron pob un yn datblygu eu medrau TGCh yn gynyddol hyderus ar draws y cyfnod sylfaen ac yn eu defnyddio'n synhwyrol i'w cynorthwyo gyda'u tasgau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn ffilmio'i gilydd yn darllen bwletin newyddion i rybuddio'r cyhoedd bod blaidd ffyrnig yn crwydro'r strydoedd.

O ganlyniad i'r ddarpariaeth arloesol a gynigir i ddisgyblion cyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu holl fedrau, gan gynnwys pob agwedd ar lythrennedd yn y Gymraeg a Saesneg. Ar waelod y cyfnod allweddol hwn, mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn frwdfrydig i sbardun cyffrous a gyflwynir iddynt. Er enghraifft, o ganlyniad i dystiolaeth bod estronwr wedi glanio ar dir yr ysgol, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn astudio erthygl papur newydd yn Saesneg sy'n cofnodi'r digwyddiad. Maent yn deall pwrpas prif bennawd, corff y stori, a phwysigrwydd cynnwys dyfyniadau gan lygad-dystion. Maent yn deall y cysyniad o newyddion ffug ynghyd â phwysigrwydd pwyso a mesur pa mor ddibynadwy yw'r hyn maent yn ei ddarllen mewn papurau newydd.

Wrth i'w hyder ddatblygu, mae'r disgyblion yn cymhwyso holl agweddau eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn hynod fedrus yn drawsgwricwlaidd wrth ddilyn amrywiol brosiectau integredig sy'n seiliedig ar brofiadau bywyd go iawn. Mae hyn yn nodwedd arbennig iawn o lwyddiant disgyblion yr ysgol hon. Mae enghraifft nodedig o brosiect integredig ar frig yr ysgol yn cynnwys astudiaeth ar dywydd a hinsawdd. Mae'r disgyblion yn casglu data yn ddyddiol o orsaf dywydd yr ysgol, cyn ei ddehongli a'i gyflwyno ar ffurf bwletin i'w cyfoedion gan ddefnyddio technoleg y sgrin werdd. Mewn tasgau dilynol ar yr hinsawdd, maent yn defnyddio'u medrau trawsieithu ac ysgrifennu yn gelfydd i gywain gwybodaeth mewn un iaith a'i defnyddio yn y llall i greu dadl ar thema fel: "Mae Caerdydd wedi cael gaeaf caletach na Gwynedd eleni - trafodwch". Mae'r disgyblion yn defnyddio'u medrau llafar yn hynod aeddfed i gyflwyno dadl, cyn e-bostio disgyblion mewn ysgol yng Ngwynedd i barhau â'r ddadl gydag eraill o bell.

Mae disgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau mentergarwch yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent wedi cynhyrchu cryno ddisg o ganeuon "Lleisiau'r Wern", gan wneud elw i'r ysgol. Maent yn creu a defnyddio taenlenni'n hyderus, llythyru rhieni i farchnata'r cryno ddisg a dylunio clawr deniadol iddo. Enghraifft arbennig arall, lle mae disgyblion hŷn yn cymhwyso'u medrau'n grefftus, yw cynllunio taith fws i dwristiaid o amgylch Caerdydd, gan ymweld â mannau arbennig o'u dewis. Golyga hyn amseru'r daith, ymchwilio i fannau arbennig, cyfrifo pris i'r daith a'i marchnata gan ddefnyddio'u medrau llythrennedd a TGCh.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae bron pob un disgybl yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn falch i fod yn rhan o'i chymuned. Maent yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac yn llwyr fwynhau eu profiadau dysgu. Mae safonau lles ac agwedd bron pob disgybl tuag at ddysgu yn arbennig o gadarnhaol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn i'w datblygiad addysgol ynghyd ag uchelgais academaidd y rhan fwyaf ohonynt.

Mae bron pob disgybl yn falch o'u Cymreictod a'r ffaith eu bod yn siarad Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson gyda'u cyfoedion ac yn deall mantais ei defnyddio yn eu bywydau pob dydd. Yn ogystal â bod yn falch eu bod yn ddisgyblion yn Ysgol Y Wern, maent hefyd yn sylweddoli eu bod yn aelodau o gymuned amlddiwylliannol dinas Caerdydd a'r byd ehangach.

Mae bron pob un yn hynod gwrtais ac yn arddangos lefel uchel o barch tuag at ei gilydd a thuag at oedolion. Maent yn cyfarch ei gilydd, y staff ac ymwelwyr mewn ffordd gyfeillgar, naturiol a hynaws iawn. Mae hon yn nodwedd ragorol o ymagwedd hyfryd y disgyblion. Mae'n adlewyrchu gwerthoedd cyfoethog yr ysgol yn llwyddiannus, gan gyfrannu'n sylweddol at yr ethos gofalgar a chartrefol sy'n treiddio trwy bob agwedd o'i gwaith.

Mae bron pob un disgybl yn dangos lefel uchel iawn o ofal tuag at ei gilydd a thuag at eraill mewn gwersi ac ar adegau anffurfiol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd arbennig y mae disgyblion hŷn yn gofalu am eu cyfoedion iau adeg egwyl. Maent nid yn unig yn sicrhau bod eu cyfoedion iau yn hapus amser egwyl, maent hefyd yn dangos iddynt sut i chwarae'n llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac yn ymwybodol iawn o ba fwydydd y dylent eu bwyta. Maent yn manteisio'n rheolaidd ar gyfleoedd cyfoethog ac amrywiol i gadw'n heini trwy gymryd

rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod amser egwyl a chlybiau ar ôl ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda iawn at ddatblygiad eu ffitrwydd a'u medrau cymdeithasol.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd aeddfed y mae bron pob disgybl yn lleisio'u barn ar yr hyn y maent yn ei ddysgu, gan gynnwys dewis themâu. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd naturiol y mae disgyblion hŷn wedi cyfrannu at lywio'u dysgu eu hunain i gyd-fynd â'u diddordeb yn hanes yr Ail Ryfel Byd. Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gyfoethog o'u gallu personol ac o sut y gallant ddatblygu a gwella'u medrau. Maent yn aml yn dewis lefel yr her y maent am ei dilyn mewn tasgau penodol ac yn esbonio'r rhesymau am hynny. Mae disgyblion o bob gallu yn gwerthuso'u hymdrechion ac yn gwella'u gwaith yn gynyddol annibynnol yn sgil adborth cymedrol, effeithiol ac amserol gan eu hathrawon neu eu cyfoedion.

Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio'n gadarnhaol ar y cyfle i gyfrannu at yr ystod eang a phwrpasol o bwyllgorau plant sy'n bodoli yn yr ysgol o dan arweiniad ei senedd. Maent yn ymateb yn gadarnhaol iawn i gyfleoedd a gânt i ymgymryd â rolau arwain o fewn yr ysgol ac yn cyfrannu'n gynhyrchiol iawn i'w bywyd a'i gwaith. Maent yn ysgwyddo cyfrifoldebau yn aeddfed, yn ystyried safbwyntiau eraill yn synhwyrol ac yn gweithredu er budd eu cyfoedion. Mae hyn yn eu paratoi'n dda i fod yn ddinasyddion cydwybodol.

Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd rheolau a gwerthoedd fel hawliau plant y Cenhedloedd Unedig. Mae hyn yn adlewyrchu holl werthoedd yr ysgol ac yn annog y disgyblion i fyfyrio a bod yn ddiolchgar am yr hyn sydd ganddynt ac i sylweddoli nad yw pob plentyn mor ffodus â nhw.

Mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol yn gyson uchel iawn ac yn ei gosod yn rheolaidd yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae hon yn nodwedd ragorol ac yn adlewyrchu'r ffaith bod y disgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol

Mae ansawdd yr addysgu yn rhagorol. Mae'r holl athrawon yn ennyn diddordeb bron pob un disgybl ym mhob sesiwn ddysgu ac yn tanio'u dychymyg yn gampus ac yn gwbl naturiol trwy ddefnyddio dull creadigol ac arloesol o gynllunio'r cwricwlwm. Mae'r athrawon yn ystyried syniadau'r disgyblion i gynllunio ystod eang o brosiectau hynod gyfoethog, sy'n seiliedig ar brofiadau bywyd go iawn. Mae'r profiadau dysgu hyn yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn hynod lwyddiannus yn drawsgwricwlaidd ac mewn modd integredig. Er enghraifft, mae athrawon ar frig yr ysgol yn cynllunio heriau diddorol o ansawdd uchel yn seiliedig ar glip gweledol o gyfweliad ag aelod o'r gymuned am yr eira mawr yn 1947. Mae hyn yn sbarduno'r disgyblion i ysgrifennu dyddiadur sy'n llawn empathi a chydymdeimlad.

Nodwedd arbennig o'r addysgu yw'r berthynas waith eithriadol o effeithiol sy'n bodoli rhwng disgyblion a staff. Mae hyn yn adlewyrchu'r parch a'r ymroddiad i wella'n barhaus ymysg y disgyblion a'r staff. Mae gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o'r disgyblion ac ohonynt eu hunain, ac maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau ysgogol yn ddychmygus i herio pob grŵp o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd arbennig o effeithiol o raglenni digidol perthnasol sy'n sbarduno'r disgyblion i ddysgu mewn ffordd gyfoes. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio rhaglenni daearyddol i arsylwi ar dywydd eithafol yn Efrog Newydd. Mae hyn yn eu galluogi i blethu ystod o fedrau cyfathrebu, rhifedd a thechnolegol i'w gwaith yn gwbl naturiol.

Mae'r cyfleoedd cyfoethog i hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn rhan hollol greiddiol a naturiol o holl waith yr ysgol. Defnyddir y gymuned leol yn ddyfeisgar i ddatblygu'r disgyblion yn ddysgwyr annibynnol, hyderus ac uchelgeisiol gan roi ystod eang o brofiadau arloesol iddynt sy'n seiliedig ar bedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Enghraifft nodedig o hyn yw'r dadansoddiad manwl a wnaeth y disgyblion o gyfrifiad diweddar y ddinas, i adnabod y diwylliannau amrywiol sy'n bodoli yno. Mae disgyblion o bob gallu yn creu ryseitiau o wahanol ddiwylliannau ac yn coginio'r bwydydd o dan arweiniad cogyddes Gymreig enwog. Mae hyn yn datblygu eu medrau ymchwilio, rhifedd a chreadigol yn hynod lwyddiannus.

Ar draws y cyfnod sylfaen, ceir cydbwysedd da rhwng tasgau sydd wedi eu harwain gan oedolyn a rhai eraill sydd wedi eu hysgogi gan ddisgybl. Rhoddir ystyriaeth dda iawn i farnau disgyblion, sy'n arwain at ddyfalbarhad a lefel uchel o ymrwymiad. Er enghraifft, disgyblion Blwyddyn 2 ysgogodd y prosiect i gydweithio ag artist lleol i lunio e-lyfrau i'w darllen gartref gyda'u rhieni. Mae gweithgareddau ysgol y goedwig hefyd yn cynnig cyfleoedd cyfoethog a gwahanol iddynt ddatblygu ystod o fedrau yn yr awyr agored, fel paratoi bwyd i'r adar yn ystod misoedd y gaeaf a chwilio am gymesuredd ym myd natur.

Mae athrawon yn rhoi pwyslais clir ar feithrin annibyniaeth disgyblion o oed cynnar trwy eu hannog i archwilio, arbrofi a gwneud penderfyniadau annibynnol am yr hyn y maent am ei ddysgu. Mae'r ddarpariaeth ym mlynyddoedd cynnar y cyfnod sylfaen i alluogi'r disgyblion i gymhwyso eu medrau allweddol o fewn gweithgareddau'r ardaloedd parhaus ac estynedig, yn nodwedd arbennig. Fodd bynnag, mae'r arfer hon yn llai cyson ym Mlynyddoedd 1 a 2. Nid yw'r heriau a gynllunnir yno bob amser yn ddigon uchelgeisiol i alluogi'r disgyblion i ymarfer eu medrau i'r un lefel uchel iawn ag y gwnânt o fewn rhai tasgau ffocws.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar ysgogol ac amserol i'r disgyblion sy'n eu galluogi i wella eu dysgu yn llwyddiannus iawn. Maent yn holi'n dreiddgar, sy'n annog disgyblion i ymestyn eu hymatebion a dyfnhau eu dealltwriaeth yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn modelu iaith lafar ac ysgrifenedig goeth, ac maent yn cyfleu disgwyliadau uchel iawn trwy ddangos a thrafod enghreifftiau gwerthfawr.

Mae'r athrawon yn annog disgyblion i bennu eu meini prawf llwyddiant eu hunain, sy'n ddealladwy, yn benodol ac sy'n cynnig her uchel iawn iddynt. Mae sylwadau ysgrifenedig cryno a phwrpasol yr athrawon yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn arbennig o lwyddiannus. Mae'r disgyblion yn ymateb yn synhwyrol i'r sylwadau hyn drwy wella rhannau allweddol o'r gwaith. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd defnyddiol i'r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion drwy hybu trafodaethau pâr effeithiol iawn. O ganlyniad, mae bron pob disgybl, yn unol â'u hoed a'u gallu, yn llunio'u targedau personol yn llwyddiannus ac yn annibynnol.

Mae athrawon yn asesu'n gywir ac yn dadansoddi deilliannau yn effeithiol i lywio'u cynlluniau wythnosol, sy'n hylaw a chynaliadwy.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, weithgar a chynhwysol. Mae ffordd hynaws y staff o fodelu parch a chwrteisi yn nodwedd ragorol, ac yn creu ymdeimlad gofalgar a chartrefol sy'n cael ei adlewyrchu yn ymddygiad ardderchog y disgyblion. Mae staff yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o werthoedd yr ysgol yn llwyddiannus iawn. Mae'r arfer hon yn gwbl greiddiol i'w gwaith ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'n cyfoethogi'r addysgu ac yn sicrhau bod disgyblion yn hapus wrth eu gwaith ac yn dyfalbarhau wrth eu tasgau. Mae hyn yn meithrin dysgwyr annibynnol sy'n mwynhau cyfleoedd i feddwl yn strategol am eu gwaith ac anelu i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith hylaw i sicrhau bod y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn iawn o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru ynghyd â gwledydd eraill. Mae'r ffocws hwn yn greiddiol i weledigaeth yr ysgol ac yn dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar ddealltwriaeth gadarn bron pob disgybl o'u hetifeddiaeth nhw o'i chymharu ag eraill. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd iddynt ddeall yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhyngddyn nhw ac eraill, gan sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd peidio â bod yn rhagfarnllyd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn gwerthfawrogi dewrder Rosa Parkes wrth iddi frwydro am degwch yn Unol Daleithiau'r America yn y chwedegau.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ac effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae staff yn annog y disgyblion i gymryd rhan yn yr ystod eang iawn o weithgareddau ymarfer corff a chwaraeon a ddarperir iddynt yn rheolaidd. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd byw yn iach, ac mae llawer yn defnyddio'u gwybodaeth am hyn i geisio dylanwadu'n gadarnhaol ar arferion aelodau'r teulu.

Mae'r athrawon yn defnyddio cwmnïau lleol, cerddorion ac artistiaid i sbarduno prosiectau diddorol yn seiliedig ar fywyd go iawn y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth hynod gyfoethog o weithgareddau cerddorol a chreadigol yn cyfoethogi profiadau disgyblion yn eithriadol o lwyddiannus. Mae'r rhain yn cyfrannu'n helaeth at feithrin eu hunanhyder, eu medrau mynegiannol a'u gallu i gydweithio'n dda mewn tîm. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau corawl, caneuon actol, a cherddorfa'r ysgol, ymysg llawer mwy.

Mae'r athrawon a'r staff yn ymateb yn ddeallus i anghenion unigolion i sicrhau bod bron pob disgybl yn cyrraedd hyd eithaf ei allu. Mae gan yr ysgol weithdrefnau olrhain cynnydd cadarn iawn i alluogi'r staff i ymateb yn gyflym i anghenion disgyblion o bob gallu. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni ei rôl yn hynod fedrus, gan rannu ei harbenigedd a chefnogi gweddill y staff yn llwyddiannus iawn, yn arbennig yr athrawon newydd gymhwyso. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd ardderchog tuag at eu targedau.

Mae'r staff bob amser yn annog ymddygiad da ymhlith y disgyblion ac mae ganddi weithdrefnau hynod gadarn a theg i ddelio ag unrhyw achosion lle mae hynny'n digwydd. Mae'r ysgol yn cynnal sesiynau penodol i rieni i godi eu hymwybyddiaeth o'r gweithdrefnau a ddefnyddir i annog ymddygiad da. O ganlyniad, eithriadau yw'r achosion o wir gamymddygiad ymhlith y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r cysylltiadau cadarn sy'n bodoli gydag amrediad o asiantaethau arbenigol allanol. Er enghraifft, trefnwyd hyfforddiant ar y dull adferol i arfogi staff i ddatrys unrhyw broblemau sy'n ymwneud ag agweddau negyddol ymhlith disgyblion ac i'w helpu i ddelio ag unrhyw heriau emosiynol neu ymddygiad andwyol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth hyderus a chadarn y pennaeth, ynghyd â'i disgwyliadau aruchel, wedi gosod cyfeiriad strategol cryf iawn i'r ysgol, yn arbennig wrth i niferoedd y disgyblion gynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau'r ddarpariaeth orau i'r holl ddisgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i gyflawni hyd eithaf eu gallu, o fewn amgylchedd gofalgar, cefnogol a Chymreig. Mae'r pennaeth yn flaengar wrth ymgymryd â phrosiectau a mentrau sy'n fanteisiol i'w disgyblion, tra'n ddigon hyderus i wrthsefyll unrhyw bwysau allanol i gymryd rhan mewn gweithgareddau nad ydynt yn fuddiol iddynt. Mae'n hybu arloesedd yn barhaus, ac wedi ymrwymo'n llawn i fod yn Ysgol Greadigol Arweiniol, sy'n rhannu arfer dda gydag ysgolion eraill. Mae'r gwaith hwn yn treiddio'n naturiol trwy holl waith yr ysgol ac yn ymgorffori egwyddorion pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn grefftus a naturiol.

Caiff y pennaeth ei chynorthwyo'n fedrus gan ei dirprwy ac aelodau eraill yr uwch dîm rheoli. Ar y cyd, maent yn rhannu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus iawn ymhlith yr holl randdeiliaid. Mae hyn yn atgyfnerthu'r ethos cryf o waith tîm sy'n bodoli ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae arweinwyr yn rhannu cyfrifoldebau yn synhwyrol ymhlith y staff, gan eu hannog i gymryd penderfyniadau ac arwain mewn meysydd penodol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd disgyblion, sy'n sicrhau bod yr holl athrawon yn atebol am ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau a gyflawnir yn eu dosbarthiadau. O ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod anghenion eu disgyblion, ac mae hyn yn arwain at safonau a lles rhagorol ar draws yr ysgol.

Mae presenoldeb gweledol a chyson y pennaeth o amgylch yr ysgol yn ei galluogi i arsylwi'n fanwl ar yr hyn sy'n digwydd ymhob dosbarth, adnabod unrhyw faterion pwysig, a gweithredu arnynt yn syth. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth drwyadl a chyfredol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Rhennir gwybodaeth am y ddarpariaeth a safonau yn effeithiol gyda'r llywodraethwyr drwy gyfrwng adroddiadau a chyflwyniadau gan staff a disgyblion. Trafodir y cynnydd tuag at gyflawni blaenoriaethau'r ysgol ynghyd ag unrhyw weithgareddau allweddol eraill. Mae hyn yn galluogi llywodraethwyr i ddeall cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella, ac i ddwyn arweinwyr i gyfrif am ei pherfformiad lle bo angen.

Mae'r gweithdrefnau monitro yn effeithiol iawn, yn cynnwys arweinwyr eraill o blith y staff, ac yn rhoi ffocws clir ar agweddau penodol o'r blaenoriaethau gwella. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at gynnal a gwella ymhellach yr addysgu rhagorol. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon fyfyrio ar eu harfer ynghyd ag unrhyw dargedau sy'n deillio o'r weithdrefn fonitro.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r gweithdrefnau hunanarfarnu a'r cynlluniau gwella. Mae'r ysgol yn adnabod y blaenoriaethau cywir i wella, ac mae ganddi hanes cadarn

o yrru gwelliant a datblygu'r ysgol yn ganolfan ddysgu lwyddiannus.  Er enghraifft, mae'r gwaith ar ymgorffori'r dull adferol i'w gwaith wedi arfogi staff i feithrin disgyblion i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiad yn aeddfed iawn.  Er bod gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn gynhwysfawr a llwyddiannus iawn, nid yw'r cynllun gwella na'r arfarniadau ysgrifenedig bob tro yn adlewyrchu eu trylwyredd na'u miniogrwydd, na'u heffaith hynod ddylanwadol ar safonau uchel y disgyblion.

Nodwedd ragorol ar yr arweinyddiaeth yw'r cyfleoedd cyfoethog a ddyrennir i staff ddatblygu'n broffesiynol.  Mae'r prosiect asesu ar gyfer dysgu gyda rhwydwaith o ysgolion eraill yn darparu cyfleoedd hylaw a chyffrous i staff ymchwilio a myfyrio ar effaith defnyddio gwahanol dechnegau asesu gyda'r disgyblion.  Maent yn rhaeadru'r wybodaeth hon yn llwyddiannus iawn i weddill y staff i sicrhau dealltwriaeth a chysondeb yn y ddarpariaeth.  O ganlyniad, mae disgyblion o oed ifanc iawn yn gwybod sut i symud eu dysgu i'r cam nesaf.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu cyllid yr ysgol yn graff yn erbyn y blaenoriaethau gwella.  Gwna ddefnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion, er enghraifft wrth sicrhau bod disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn cael yr un profiadau ag eraill, er enghraifft wrth fynychu ymweliadau preswyl a gwersi offerynnol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2018